Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diweddariad polisi'r UE: (EU2013.02):

# Cynllunio Gofodol Morol a Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig

## Cyflwyniad

Ar 13 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion drafft ar gyfer Cyfarwyddeb i geisio sefydlu fframwaith cyffredin drwy'r UE ar gyfer Cynllunio Gofodol Morol a Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig.[1] Nod y Gyfarwyddeb fyddai hyrwyddo'r ymgais i ddefnyddio adnoddau morol ac arfordirol yn gynaliadwy, a hyrwyddo twf cynaliadwy economïau morol ac arfordirol.

Yn fras, byddai'r Gyfarwyddeb yn gosod gofyniad cyfreithiol bod Aelod-wladwriaethau yn datblygu Cynlluniau Gofodol Morol a Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig, ac yn eu rhoi ar waith.

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

Byddai'n ofynnol bod pob Aelod-wladwriaeth yn datblygu Cynllun Gofodol Morol a Strategaeth Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig sy'n amlinellu camau gweithredol ar gyfer cyflawni'r amcanion a ganlyn, a'u rhoi ar waith:

- Hwyluso cyd-fodolaeth sectorau sy'n cystadlu â'i gilydd ac atal gwrthdaro;
- Hyrwyddo arferion defnyddio ynni'n effeithlon a datblygu ffynonellau ynni o'r môr;
- Datblygu llwybrau trafnidiaeth morol effeithlon a chost-effeithiol;
- Annog twf cynaliadwy o ran pysgodfeydd a dyframaethu;
- Sicrhau bod camau diogelu'r amgylchedd wedi'u sefydlu, gan gynnwys cynnal bioamrywiaeth a diogelu gwasanaethau ecosystem;
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy;
- Lleihau risgiau o lygredd morol; a
- Hyrwyddo gwytnwch hinsoddol.

Mapiau o ardaloedd morol sy'n nodi gwir leoliadau a lleoliadau a pharhad posibl gweithgareddau o fewn y dyfroedd morol yw Cynlluniau Gofodol Morol. Byddai'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Gofodol Morol yn cyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd uchod drwy ystyried yr hyn a ganlyn o leiaf: gosodiadau ar gyfer echdynnu a chynhyrchu ynni; llwybrau trafnidiaeth forol; ceblau a phiblinellau tanfor; ardaloedd pysgota; safleoedd ffermio yn y môr a safleoedd cadwraeth.

Byddai'n ofynnol bod Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig yn cynnwys rhestrau o'r camau presennol a gaiff eu cymryd mewn parthau arfordirol, a dadansoddiad o'r camau pellach sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion uchod. Byddai'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol bod y Strategaethau hyn yn ystyried y modd y mae'r môr a'r tir yn effeithio ar ei gilydd ac yn darparu ar gyfer gweithredu mewn modd integredig ar draws pob sector perthnasol.

[1] COM (2013)133 ar gael ar **wefan Pre Lex**

**Cynnwys cynlluniau a strategaethau:** Byddai'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Gofodol Morol a Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig yn gweithredu yn unol â'r dull ecosystemau a amlinellwyd yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol ac yn cwrdd â goblygiadau'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Byddai'r Gyfarwyddeb yn caniatáu i aelod-wladwriaethau deilwra eu strategaethau yn ôl eu blaenoriaethau, eu dulliau llywodraethu a'u traddodiadau eu hunain.

**Cyfranogiad y cyhoedd:** Byddai'n ofynnol bod Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod y cyhoedd a'r rhai sydd â diddordeb yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Gofodol Morol a Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig, a bod y rhai sydd â diddordeb yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y cynlluniau drafft ac yn cael gweld canlyniadau.

**Cydweithredu ar draws ffiniau:** Pan fydd ardaloedd arfordirol neu forol yr Aelod-wladwriaethau yn cydffinio, byddai'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gydweithredu â'i gilydd i sicrhau bod eu Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig yn cael eu cydlynu a'u cydgysylltu drwy'r ardal dan sylw.

**Awdurdodau cymwys:** Byddai angen i bob Aelod-wladwriaeth ddynodi sefydliad a fyddai'n gyfrifol am roi'r Gyfarwyddeb ar waith ym mhob rhanbarth morol a'u nodi wrth y Comisiwn o fewn 18 mis i ddyddiad pasio'r Gyfarwyddeb.

**Mesurau adrodd:** Byddai'n ofynnol i aelod-wladwriaethau roi adroddiad i'r Comisiwn ar eu cynnydd o ran gweithredu'r Gyfarwyddeb o fewn 42 o fisoedd o'r dyddiad y daeth y Gyfarwyddeb i rym. Byddai'r strategaethau yn cael eu hadolygu a byddai adroddiad yn cael ei anfon i'r Comisiwn o leiaf bob chwe blynedd o hynny ymlaen.

**Amseriad:** Byddai'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth roi'r cyfreithiau, y rheoliadau a'r systemau gweinyddu a fyddai'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb ar waith o fewn 18 mis i'r dyddiad y daeth y Gyfarwyddeb i rym. Byddai angen sefydlu Cynlluniau Gofodol Morol a Strategaethau Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig o fewn tair blynedd i'r dyddiad y daeth y Gyfarwyddeb i rym.

## Cefndir y cynnig

Dywed y Comisiwn Ewropeaidd bod y galw am ofod morol ac arfordirol yn yr UE yn cynyddu, a bod hynny'n arwain at wrthdaro a disbyddu adnoddau. Hefyd, mae'r ardaloedd arfordirol a morol o dan bwysau yn sgîl risgiau hinsoddol a pheryglon naturiol.

**Polisi Morol Integredig[2]:** Yn 2008 mabwysiadodd yr UE Bolisi Morol Integredig. Mae'r PMI yn cynnig fframwaith trosfwaol ar gyfer pob polisi sy'n effeithio ar ardaloedd morol ac arfordirol o fewn dyfroedd yr UE. Nod y PMI yw sicrhau bod cydlyniant a chydgysylltiad o ran polisïau morol, ar draws y sectorau a rhwng yr Aelod-wladwriaethau. Mae'r PMI yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn: twf economaidd y sectorau morol ('twf glas'), goruchwyliaeth forol, data a gwybodaeth forol, a chynllunio gofodol morol.

**Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol:** **Cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol** (2008/56/EC)[3] yw piler amgylcheddol y PMI. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Aelod-wladwriaethau yn mabwysiadu dull ecosystem o reoli eu moroedd er mwyn sicrhau bod holl ddyfroedd morol yr UE yn cyrraedd 'Statws Amgylcheddol Da' erbyn 2020. Caiff ei throsi i gyfraith yn y DU gan *Reoliadau Strategaeth Forol 2010.*[4]

---

[2] Y Comisiwn Ewropeaidd: **Polisi Morol Integredig** (gwefan) [fel ar 15 Ebrill 2013]
[3] **OJL 164, 25.06.2008** [fel ar 16 Ebrill 2013]
[4] **Rheoliadau Strategaeth Forol 2010** SI 2010/1627 [fel ar 15 Ebrill 2013]

**Datblygu Cynllunio Gofodol Morol:** Yn 2002, gwnaeth Senedd a Chyngor Ewrop argymhelliad ynghylch gweithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn Ewrop (2002/413/EC)[5] sy'n annog Aelod-wladwriaethau i ymgymryd â dull gweithredu strategol o ran rheoli'r arfordir. Dywed y Comisiwn Ewropeaidd bod y cynnig ar gyfer y Gyfarwyddeb newydd yn datblygu ar gynnwys yr argymhelliad hwn. Yn 2008, cyhoeddodd y Comisiwn ei ddogfen '*Roadmap for Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*'[6], ac yn dilyn hynny yn 2010 cyhoeddodd Nodyn Cyfathrebu o'r enw '*Maritime Spatial Planning in the EU - Achievements and Future Development*'.[7]

Ym mis Mawrth 2011, cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gyfarwyddeb arfaethedig. Roedd llai na 2 y cant o'r 225 o ymatebion a gafwyd yn anghytuno bod Cynllunio Gofodol Morol yn offeryn defnyddiol ar gyfer moroedd Ewropeaidd. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn galw am lunio fframwaith ac amcanion cyffredin, ac roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (68 y cant) yn gwrthwynebu gwahanu cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordir mewn modd integredig.

[5] **OJ L 309/71, 24.11.09** [fel ar 16 Ebrill 2013]
[6] Y Comisiwn Ewropeaidd ***Roadmap for Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*** COM/2008/0791 [fel ar 16 Ebrill 2013]
[7] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Maritime Spatial Planning in the EU – achievements and future development*** COM/2010/0771 [fel ar 16 Ebrill 2013]

## Polisi Morol yn y DU:

Daw deddfwriaeth ar ardaloedd morol ac arfordirol yn y DU o dan *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[8] (y cyfeirir ati fel *Deddf y Môr*) a *Marine (Scotland) Act 2010*)[9,10]. Crëwyd *Deddf y Môr* gyda'r nod o hyrwyddo defnydd cynaliadwy o systemau morol. Caiff *Deddf y Môr* ei rhoi ar waith drwy gyfres o reoliadau a gorchmynion sy'n parhau i ddod i rym.

Mae *Deddf y Môr* yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu cynlluniau morol sydd yn unol â Datganiad Polisi Morol ar y cyd. Mabwysiadwyd Datganiad ar y cyd yn 2011 ac mae hwn yn nodi'r amcanion polisi lefel uchel ar gyfer dyfroedd y DU. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gamau gwahanol o'r broses o ddatblygu eu cynlluniau morol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Nodyn y Gwasanaeth Ymchwil 2012 ar **Gynllunio Gofodol Morol**.

## Perthnasedd i Gymru

Mae'r ardal y mae dyfroedd mewndirol Cymru yn ei chynnwys bron ddwywaith maint arwynebedd tir Cymru ac mae oddeutu 60 y cant o boblogaeth Cymru yn byw ar yr arfordir. Mae ardaloedd morol ac arfordirol Cymru yn darparu nifer o nwyddau a gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, pysgodfeydd, bioamrywiaeth a gwerth diwylliannol, sy'n cyfrannau £2.5 biliwn y flwyddyn at economi Cymru.[11]

[8] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** Pennod 23, [fel ar 16 Ebrill 2013]
[9] ***Marine (Scotland) Act 2010*** [fel ar 16 Ebrill 2013]
[10] Mae Gogledd Iwerddon ar ganol proses o ddatblygu Bil Morol ar hyn o bryd a fydd yn rhoi'r pwer i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fabwysiadu Cynlluniau Morol yn eu rhanbarth mewndirol.
[11] Llywodraeth Cymru, ***Gwarchod Moroedd Cymru - Strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd gwarchodedig morol yng Nghymru***, 2009 [fel ar 9 Ebrill 2013]

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol gyfrifol am roi Cyfarwyddebau Ewropeaidd ar waith o fewn dyfroedd Cymru ac am ddatblygu cynlluniau morol yn rhanbarthu mewndirol Cymru (0-12 môr-filltir) a'r rhanbarthau ar y môr (12 môr-filltir at ei ffin diriogaethol).

Ym mis Chwefror 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, ***Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru***[12], ar ei dull gweithredu arfaethedig o ran cynllunio morol yng Nghymru. Nododd y ddogfen ymgynghorol fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio mabwysiadu cynlluniau morol erbyn diwedd 2013, ond bellach disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi erbyn 2015. Mae gwaith cychwynnol ar gynllunio morol wedi dechrau.

Yn dilyn argymhelliad yr UE yn 2002 ar y Strategaeth Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '***Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru' - Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru***'[13], sy'n amlinellu gwerth Strategaeth Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig a'i hegwyddorion, fel yr amlinellwyd gan yr UE. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Cyhoeddir adroddiad ar y cynnydd o ran yr amcanion hyn yn flynyddol.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

Amlinellodd Llywodraeth y DU ei barn am y cynigion mewn Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013. [14]

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r cam i roi cyfarwyddeb fframwaith ar Gynllunio Gofodol Morol ar waith yn gryf. Fodd bynnag, dywed y Memorandwm Esboniadol bod y Gyfarwyddeb arfaethedig yn cynnwys elfennau nad yw Llywodraeth y DU yn eu cefnogi'n llwyr. Mynegir pryder yn benodol y gallai'r Gyfarwyddeb danselio neu ddrysu camau a gymerir eisoes yn y DU, ac y dylai rhai o'r cynigion a gyflwynir gan y Comisiwn Ewropeaidd gael eu gwneud yn ddewisol gan yr Aelod-wladwriaethau.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r meysydd penodol ble nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno â'r Gyfarwyddeb arfaethedig. Byddai Llywodraeth y DU yn awyddus i:

- Newid y Gyfarwyddeb er mwyn lleihau i'r eithaf nifer y newidiadau y byddai'n rhaid eu gwneud i drefniadau presennol y DU i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb;
- Ymestyn y cyfyngiad amser o 36 mis ar gyfer sefydlu cynlluniau gofodol morol a strategaethau rheoli'r arfodir mewn modd integredig, a hynny er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cyd-fynd â tharged y DU ei hun o gael cynllun gofodol morol ar waith erbyn 2022;
- Sicrhau bod yr amcanion (Erthygl 5) a'r gofynion lleiaf (Erthyglau 6-8) a gynigir yng nghyswllt cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordir mewn modd integredig yn rhai enghreifftiol yn hytrach na gorfodol, oherwydd cyfrifoldeb yr aelod-wladwriaeth yw penderfynu ynghylch blaenoriaethau a sut i'w cyflawni;
- Diwygio Erthygl 12 fel bod Aelod-wladwriaethau yn gorfod cydweithredu i helpu i sicrhau cydlyniant a chydgysylltiad ar draws ffiniau yn unig, yn hytrach na gorfod sicrhau hyn; a

[12] Llywodraeth Cymru, ***Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru*** (gwefan) [fel ar 16 Ebrill 2013]
[13] Llywodraeth Cymru, ***Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru – Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru***, Mawrth 2007 [fel ar 16 Ebrill 2013]
[14] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Memorandwm Esboniadol ar Ddogfen yr Undeb Ewropeaidd: *Offeryn Drafft dyddiedig 14 Mawrth 2013 yn ymwneud â chynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd a Chyngor Ewrop i sefydlu fframwaith ar gyfer cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordir mewn modd integredig, 26 Mawrth 2013*

- Dileu neu ddiwygio Erthygl 16(1)(b) sy'n caniatáu i'r Comisiwn fabwysiadu darpariaethau ar y camau gweithredol ar gyfer monitro, ymgynghori â'r cyhoedd, adrodd, a chydweithredu'n drawsffiniol o ran cynlluniau gofodol morol a rheoli'r arfordir mewn modd integredig.

Dywed y Memorandwm Esboniadol bod ymgynghoriad wedi'i gynnal â Llywodraeth Cymru yn ystod ei ddatblygiad.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei safbwyntiau am y cynnig hyd yma. Caiff yr adran hon ei diweddaru pan fydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu.

Ni ddangoswyd unrhyw wrthwynebiadau ar sail sybsidiaredd gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[15]

## Safbwynt sefydliadau'r UE

***Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.***

Caiff cynigion y Comisiwn eu mabwysiadu drwy'r 'drefn ddeddfwriaethol arferol' (Penderfyniad ar y cyd), sy'n gofyn am gytundeb rhwng Cyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop cyn y gall y cynigion ddod yn gyfraith yr UE.

Ar hyn o bryd mae'r cynnig ar ganol y cam paratoi yn Senedd Ewrop. Y prif Bwyllgor ar gyfer y Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol fydd y Pwyllgor Trafnidiaeth a Thwristiaeth, a gaiff ei gadeirio gan Brian Simpson ASE o Brydain (Sosialwyr a Democratiaid). Y prif Rapporteur fydd yr ASE Ffrengig Isabelle Thomas (Sosialwyr a Democratiaid).

Trafodir y cynigion yn y Cyngor Ewropeaidd; ni chynhaliwyd dadleuon yn eu cylch hyd yma.

## Ymatebion rhanddeiliaid

Mae'r sefydliadau a ganlyn wedi cyhoeddi ymatebion i'r Gyfarwyddeb arfaethedig:

- Mae **Seas at Risk, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF), Birdlife International a Sefydliad Môr y Gogledd** wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ar y cyd
- **Cymdeithas Ynni Gwynt Ewrop**

[15] Papur briffio y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop i sefydlu fframwaith ar gyfer cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordir mewn modd integredig (COM(2013)133). 15 Ebrill 2013*

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol a Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig, cysylltwch â Nia Seaton (Nia.Seaton@cymru.gov.uk), Rhif estyniad 8987.

**Gweler hefyd:**

Gwefan Llywodraeth Cymru ar **Gynllunio Morol**

Gwefan y Comisiwn Ewropeaidd ar **Gynllunio Gofodol Morol**

Tudalen we Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop ynghylch **Cynllunio Gofodol Morol a Rheoli'r Arfordir mewn modd Integredig**

Gwefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU ar y **System Cynllunio Morol**

Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar **Bysgodfeydd a Materion Morol**